# Disgrifiad Swydd a Manyleb Person

| | |
|---|---|
| **Teitl y swydd: Cynorthwyydd Dysgu – Lefel 2** | **Graddfa: 4** |
| **Adran: Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant** | **Yn atebol i: Y Pennaeth** |
| **Amodau Contract: I'w penderfynu gan yr ysgol** | **Lefel Gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd: Manwl** |

**<u>Diben cyffredinol y swydd:</u>**

Cyflwyno rhaglen o waith gwahaniaethol i unigolion neu grwpiau bach o ddisgyblion, i mewn neu allan o'r ystafell ddosbarth, sydd wedi'i chynllunio gan yr athro. Efallai bod y rhaglenni hyn wedi'u nodi yn dilyn asesiad ffurfiol neu anffurfiol gan ymarferydd cymwys ond ni fydd angen unrhyw hyfforddiant ffurfiol i'w cyflwyno.

**<u>Disgrifiad Swydd</u>**

***<u>Cefnogaeth i Ddisgyblion</u>***

- Sefydlu perthynas gadarnhaol gyda disgyblion a bod yn effro i anghenion unigol ac ymateb yn briodol iddyn nhw
- Hybu cynhwysiant a'r cysyniad bod pob disgybl yn derbyn croeso yn yr ysgol
- Annog y disgyblion i ryngweithio gydag eraill ac i fod yn weithredol wrth gyflawni gweithgareddau dan arweiniad yr athro/athrawes
- Gosod disgwyliadau heriol a hybu hunanhyder ac annibyniaeth
- Darparu adborth i ddisgyblion o ran cynnydd a chyflawniad dan arweiniad yr athro/athrawes/Uwch Staff Cymorth
- Cynorthwyo'r athro/athrawes/Uwch Staff Cymorth i fonitro/cwblhau Cynlluniau Addysg Unigol/Cynlluniau Addysg Ymddygiad
- Annog y plant i weithredu'n annibynnol, lle bo hynny'n briodol
- Ar ôl derbyn yr hyfforddiant perthnasol, rhoi sylw i anghenion personol disgyblion a gweithredu rhaglenni personol cysylltiedig, gan gynnwys anghenion cymdeithasol, iechyd, corfforol, hylendid, cymorth brys, cymorth meddygol ac anghenion lles
- Cynorthwyo disgyblion ag unrhyw drefniadau tŷ bach yn ôl yr angen. Mae disgwyl i'r ysgol weithio mewn partneriaeth â rhieni/gwarcheidwaid a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i weithredu rhaglen hyfforddi tŷ bach yn ôl yr angen.

***<u>Cefnogaeth i'r athro/athrawes/Uwch Staff Cymorth</u>***

- Creu a chynnal amgylchedd pwrpasol, trefnus a chefnogol, yn unol â chynlluniau gwersi a chynorthwyo ag arddangos gwaith disgyblion
- Defnyddio strategaethau, ar y cyd â'r athro/athrawes, i gefnogi disgyblion i gyflawni'r nodau dysgu
- Cynorthwyo'r athro/athrawes/Uwch Staff Cymorth i gynllunio gweithgareddau dysgu
- Cynorthwyo'r athro/athrawes/Uwch Staff Cymorth i fonitro ymatebion disgyblion i weithgareddau dysgu a chofnodi cyflawniad/cynnydd yn gywir
- Darparu adborth manwl a rheolaidd i athrawon ar gyflawniad, cynnydd ac unrhyw broblemau disgyblion

- Hyrwyddo gwerthoedd ac agweddau cadarnhaol ac ymddygiad da ymhlith disgyblion. Ymdrin ar unwaith ag achosion o wrthdaro yn unol â’r polisi sydd eisoes wedi'i sefydlu ac annog plant i fod yn gyfrifol am eu hymddygiad eu hunain
- Sefydlu perthynas adeiladol gyda rhieni/gwarcheidwaid/cynhalwyr
- Cynorthwyo'r athro/athrawes/Uwch Staff Cymorth i weinyddu profion arferol a gwaith arferol disgyblion
- Darparu cefnogaeth ystafell ddosbarth weinyddol arferol i'r athro/athrawes/staff cymorth h.y. llungopïo, teipio, ffeilio.

***Cefnogi'r Cwricwlwm***

- Ymgymryd â gweithgareddau dysgu strwythuredig a chytûn, a'u gwahaniaethu yn unol â gofynion y disgybl
- Cefnogi disgyblion mewn perthynas â strategaethau dysgu lleol a chenedlaethol er enghraifft llythrennedd, rhifedd, CA3, Cyfnod Sylfaen yn unol â chyfarwyddyd yr athro/athrawes/Uwch Staff Cymorth
- Cefnogi’r defnydd o TGCh mewn gweithgareddau dysgu. Datblygu cymhwysedd/annibyniaeth disgyblion wrth iddyn nhw ddefnyddio TGCh
- Paratoi ac ailgyflenwi offer/adnoddau ar gyfer disgyblion er enghraifft pennau, pensiliau, prennau mesur a chynorthwyo disgyblion i'w defnyddio
- Hwyluso amgylchedd dysgu diogel a heriol lle bynnag mae'r gweithgareddau'n digwydd.

***Cefnogi'r Ysgol***

- Bod yn effro i’r polisïau a’r gweithdrefnau sy’n ymwneud ag amddiffyn plant, iechyd a diogelwch, cyfrinachedd, diogelu data ac ati a chydymffurfio â hwy
- Bod yn effro i amrywiaeth, a'i chefnogi, gan sicrhau bod gan bob disgybl fynediad cyfartal i gyfleoedd dysgu a datblygu
- Cyfrannu at ethos/gwaith/amcanion cyffredinol yr ysgol
- Parchu a chefnogi rôl gweithwyr proffesiynol eraill yn yr ysgol
- Mynychu cyfarfodydd perthnasol yn ôl yr angen yn ystod oriau gwaith cytûn. Byddwch yn derbyn tâl neu TOIL priodol os byddwch yn cyflawni unrhyw ddyletswyddau y tu allan i oriau dan gontract.
- Cynorthwyo gyda goruchwylio disgyblion o fewn oriau'r contract a phan fo angen, pan fydd y disgyblion hynny allan o wersi, er enghraifft, amser egwyl, amser cinio, diwedd y diwrnod ysgol
- Ymuno â staff a disgyblion ar ymweliadau ysgol yn ôl yr angen o fewn yr oriau sydd yn eich contract. Byddwch yn derbyn tâl neu TOIL priodol os byddwch yn cyflawni unrhyw ddyletswyddau y tu allan i oriau dan gontract

***Cyfrifoldebau cyffredinol***

- Bod yn gyfrifol am eich datblygiad parhaus eich hun. Cymryd rhan mewn hyfforddiant, gweithgareddau dysgu a datblygu perfformiad yn ôl yr angen o fewn yr oriau sydd yn eich contract
- Bod yn effro i'r polisïau a’r gweithdrefnau sy’n ymwneud ag amddiffyn plant, diogelu, iechyd a diogelwch, cyfrinachedd a diogelu data, gan gyfeirio pob pryder i’r person perthnasol cyn gynted ag y maen nhw'n codi
- Mynd ati i hyrwyddo cyfle cyfartal a chefnogi darpariaeth gwasanaethau sy'n hygyrch ac yn briodol i anghenion amrywiol defnyddwyr y gwasanaethau
- Gweithredu cyfrifoldebau iechyd a diogelwch yn unol â dogfen ‘Cyfrifoldebau Iechyd a Diogelwch’ yr ysgol.

**MAE DIOGELU PLANT AC OEDOLION BREGUS YN GYFRIFOLDEB CRAIDD POB UN O'N GWEITHWYR MAE DISGWYL I WEITHWYR ROI GWYBOD I'W RHEOLWYR LLINELL AM**

**UNRHYW BRYDERON SYDD GYDA NHW O RAN ACHOSION O GAM-DRIN PLANT, POBL IFAINC NEU OEDOLION BREGUS NEU YMDDYGIAD AMHRIODOL TUAG ATYN NHW**

Cyflawni unrhyw ddyletswyddau a chyfrifoldebau sy'n gymesur â graddfa'r swydd fel y bo'n rhesymol ar gais y Pennaeth, neu fel cyfle i ddatblygu wedi'i gytuno ar y cyd.

Bydd cynnwys y ddogfen yma'n cael ei adolygu'n flynyddol gan ymgynghori â deiliad y swydd. Efallai bydd disgrifiadau swyddi yn newid yn sgil hynny i adlewyrchu a chofnodi'r cyfryw newidiadau.

**Manyleb Person**

Mae'r Fanyleb Person yma'n nodi gwybodaeth a/neu gymwysterau, profiad yn y gorffennol a chymwyseddau personol, a fyddai'n ddelfrydol ar gyfer y swydd benodol yma.

Mae'r adran **Cymwysterau** yn disgrifio'r safonau gofynnol sydd eu hangen i wneud y swydd benodol yma.

Mae'r adran **Profiad** yn disgrifio'r hyn sy'n ofynnol yn nhermau'r hyn sydd ei angen i wneud y swydd.

Mae'r adran **Gwybodaeth / Sgiliau / Galluoedd Personol** yn disgrifio'r mathau o sgiliau (technegol a heb fod yn dechnegol), galluoedd a nodweddion personol cyffredinol a fyddai gan ddeiliad delfrydol y swydd benodol yma.

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifainc, ac mae disgwyl i bob aelod o staff a gwirfoddolwyr rannu'r ymrwymiad yma.

**Creu rhestr fer a phenodi trwy Ymgeisio – Y, Cyfweliad – C a Geirdaon – G**

| Priodoleddau | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| **Cymwysterau**<br><br>**Y** | • Cymhwyster Cynorthwyydd Addysgu Lefel 2 neu gymhwyster cyfatebol neu brofiad cyfatebol | • Cymhwyster cymorth cyntaf neu ymrwymiad i gyflawni'r cymhwyster<br>• Hyfforddiant yn y strategaethau dysgu perthnasol e.e. llythrennedd |
| **Profiad**<br><br>**Y** | • Gweithio gyda phlant o oedran perthnasol, neu roi gofal iddyn nhw | • Profiad o weithio mewn amgylchedd ysgol |
| **Gwybodaeth / Sgiliau / Galluoedd Personol**<br><br>**C a G** | • Sgiliau Cymraeg Lefel 1 – Bydd raid i bob gweithiwr gymryd rhan mewn sesiwn cyflwyniad i'r Gymraeg i gyrraedd y lefel yma Edrychwch ar y Canllaw Sgiliau Iaith Gymraeg ar-lein: www.rctcbc.gov.uk/SgiliauCymraeg<br>• Defnyddio adnoddau TGCh yn effeithiol yn adnodd dysgu<br>• Sgiliau trefnu da<br>• Y gallu i ddatrys problemau o | • Sgiliau Cymraeg Lefel 2 – Lefel 5. Edrychwch ar y Canllaw Sgiliau Iaith Gymraeg ar-lein: www.rctcbc.gov.uk/SgiliauCymraeg<br>• Profiad o ddefnyddio offer technoleg er enghraifft llungopiwr, chwaraewr DVD, bwrdd gwyn rhyngweithiol<br>• Dealltwriaeth gyffredinol o'r cwricwlwm cenedlaethol/sylfaen |

| | | |
|---|---|---|
| | ddydd i ddydd<br>• Y gallu i weithio yn rhan o dîm, heb lawer o oruchwyliaeth ac i weithredu ar eich liwt eich hun<br>• Y gallu i ymdopi â gofynion, terfynau amser ac ymyrraeth sy'n gwrthdaro<br>• Dangos empathi tuag at oedolion, plant a phobl ifainc<br>• Ymrwymiad cadarn i ddatblygiad proffesiynol parhaus<br>**Gofynion y swydd:**<br><br>• Cyflawni'r holl wiriadau cyn-gyflogaeth perthnasol<br>• Cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg | |